ARWEINIAD WESTERN POWER DISTRIBUTION (DE CYMRU) PLC
I GYSYLLTU EIDDO GWLEDIG I'R PRIF GYFLENWAD TRYDAN

Mae gan Western Power Distribution (De Cymru) ccc (WPD) gyfran arbennig o uchel o eiddo gwledig anghysbell a thros y blynyddoedd enillodd brofiad eang yn y ffordd fwyaf effeithiol o'u cysylltu i'r prif gyflenwad trydan.

Mae WPD yn awyddus iawn i ddod â thrydan bob eiddo yn ein hardal sydd yn parhau heb eu cysylltu i'r prif gyflenwad trydan. Fodd bynnag, ni chawn ysgwyddo unrhyw ran o gost cysylltiad unrhyw eiddo. Gan y gall cost darparu cysylltiad i eiddo fod yn afresymol o uchel weithiau, mae WPD wedi cyflwyno rhai opsiynau talu a all wneud cysylltiad trydan yn haws ei fforddio.

TELERAU CYSYLLTU

Prisir pob cysylltiad yn unigol er mwyn sicrhau bod y pris a delir am y gwaith yn un teg. Ond i chi ofyn amdano, mae'n bosibl i chi gael cost arwyddol y gwaith y bydd WPD yn ei wneud er mwyn darparu'r cysylltiad. Canllaw yn unig yw'r gost arwyddol a bydd yn amodol ar i WPD dderbyn yn foddhaol unrhyw ganiatâd angenrheidiol. Gall unrhyw anhawster i gael caniatâd olygu y bydd y pris terfynol a gynigir yn uwch.

Mewn rhai achosion o gysylltu trydan, mae'n bosibl y bydd cyfrifoldeb cyfreithiol arnom i ychwanegu cost gwaith a wnaethpwyd ar adeg gynharach i ddarparu cysylltiad blaenorol. Os digwydd hyn, bydd y gost a ychwanegir at eich cysylltiad chi yn ffurfio sylfaen ad-daliad i'r person a dalodd yn flaenorol. Yn yr un modd, os talwch chi am gysylltiad a fydd o fewn pum mlynedd o fudd i gysylltiadau diweddarach, mae'n bosibl y bydd gennych chi hawl i ad-daliad.

Os yn gymwys, ychwanegir Treth ar Werth at y pris cysylltu.

OPSIYNAU TALU

Mae WPD yn cynnig nifer o ddulliau i chi ddewis ohonynt ar gyfer talu am gysylltiad mewn ardal wledig:

• **Taliad Cyfanswm** – ble y byddwch yn talu'r pris cysylltu yn gyfan wedi i WPD ymgymryd â'r gwaith sydd ynghlwm â chysylltiad newydd ond cyn cysylltu â phrif gyflenwad WPD.

• **Taliad Gohiriedig** – dros gyfnod o 10 neu 15 mlynedd (yn amodol ar statws). Ad-delir y swm cyfalaf ynghyd â llog mewn rhandaliadau cyfartal gyda llog wedi'i godi ar raddfa benodedig (9.5%*) dros holl gyfnod y benthyciad (yn amodol ar daliad cychwynnol o £500 o leiaf). Yn ystod cyfnod y benthyciad, os byddwch yn dymuno talu'r swm sy'n weddill arno, cewch wneud hynny ar unrhyw adeg. Os gwerthwch eich eiddo yn ystod cyfnod y benthyciad, bydd gofyn ichi dalu'r hyn sy'n weddill o'r benthyciad ar yr adeg honno. Mae dyfynsymiau ysgrifenedig i'w cael ond gofyn amdanynt.

* Noder, os gwelwch yn dda, bod WPD yn gosod y gyfradd llog ar gyfer pob benthyciad yn ôl ei ddoethineb a gall y llog amrywio o achos i achos.

• **Cynllun Ecwiti Gohiriedig** – am daliad cychwynnol o £700 (ffi trefnu) cewch gysylltiad trydan i'ch eiddo a pheidio â gorfod talu mwy nes iddo newid dwylo. Yn y cyfamser, bydd WPD yn cymryd hawl ar ganran o ecwiti'r eiddo fel iawn am ein buddsoddiad. Gan y dylai cysylltiad trydan ychwanegu at werth eich cartref, yr ydych mewn gwirionedd yn trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r gost i berchennog nesaf yr eiddo heb orfod talu unrhyw logau eich hun. Os bydd prisiau yn codi yn serth, bydd WPD yn gosod cyfyngiad ar ei gyfran ei huno'r cynnydd. Gwnawn hyn trwy gyfyngu ein cyfran ni o'r cynnydd i gyfradd wastad o 8%* (wedi ei gytuno) y flwyddyn wedi'i gyfartalu dros y cyfnod i gyd. Chi fydd yn cael cadw unrhyw arian dros ben y swm hwn. Mae'r cynllun yn agored i unrhyw berchennog cartref y mae ei eiddo o leiaf 5 mlwydd oed pan wneir y cais a ble mae'r cysylltiad dros £3000. Os ydych yn denant, efallai y bydd y cynllun ar gael i'ch landlord a dylech ei drafod gydag ef/hi.

Neu, gan bod darparu cysylltiad trydan yn cynyddu gwerth eich eiddo, y mae banciau neu Gymdeithasau Adeiladu fel arfer yn hapus i gynnig morgais am y taliad cyfanswm. Y mae'r dewis hwn yn caniatáu i chi ymgysylltu â chyfraddau llog hyblyg os yw hynny'n well gennych.

Cofiwch, mae perygl i chi golli eich cartref os nad ydych yn ad-dalu eich morgais yn rheolaidd neu unrhyw fenthyciad a sicrhawyd arno.

CADW'R COSTAU I LAWR

Y mae nifer o ddulliau ar gael i chi ostwng pris cysylltu WPD. Er enghraifft, gallech rannu rhan o'r costau adeiladu os oes ar eiddo cyfagos hefyd angen cysylltiad a'i bod yn bosibl ymgymryd â chynllun grwp. Mewn cynllun grwp, mae cyfanswm costau cysylltu'r gwifrau trydan a'r peirianwaith trydanol sy'n angenrheidiol i ddarparu pob cysylltiad yn cael eu rhannu rhwng pawb sy'n cymryd rhan.

Mae'n bosibl y byddwch yn dymuno trefnu i beth o'r gwaith ynglyn â'r cysylltiad gael ei wneud gan rywun heblaw WPD. Yn y gorffennol, cyfyngwyd y gwaith hwn i waith ffosio a gwaith sifil cysylltiedig. Erbyn hyn, gallwch drefnu i lawer rhagor o'r gwaith cysylltu newydd gael ei wneud. Ceir manylion pellach yn ein taflen Cysylltiadau Newydd i System Dosbarthu Trydan Western Power Distribution. Byddwn yn falch o gael anfon copi i chi ond i chi ofyn am un.

Mae WPD yn gwneud ei orau i gadw costau i lawr trwy dendro cystadleuol a gwella yn barhaus ein dull o wneud ein gwaith.

SUT I SYMUD YMLAEN

Yr ydym yn hapus i drafod eich anghenion penodol chi gyda chi. Gallwch ffonio eich cynrychiolydd lleol drwy ein Canolfan Alwadau ar **0845 601 2989** lle bynnag yr ydych yn y DU am gost galwad leol neu gallwch ysgrifennu atom yn **Tîm Cofnodion Bodmin, Lostwithiel Road, Bodmin, Cornwall PL31 1DE.** Os oes arnoch eisiau amcan o'r pris y bydd yn rhaid ei dalu am gysylltiad, dywedwch hynny'n glir yn eich neges ffôn/llythyr, os gwelwch yn dda.

Fel arfer, bydd unrhyw gost arwyddol a gewch parthed pris cysylltiad yn amodol ar dderbyn caniatâd ffyrddfraint a chynllunio ac unrhyw ganiatâd arall angenrheidiol.

Os bydd ein cost arwyddol yn dderbyniol gennych a chwithau yn dymuno i ni symud ymlaen, byddwn yn gwneud arolwg manwl, yn cael pob caniatâd angenrheidiol ac yn darganfod union gost y cysylltiad a bydd hyn yn ein galluogi i roi cynnig pendant i chi. Ni fydd unrhyw orfodaeth arnoch i'r gwaith gael ei wneud nes i chi dderbyn ein cynnig terfynol. Wrth gwrs, nid oes arnom eisiau treulio amser ac arian yn cael caniatâd ac yn paratoi'r cynnig os nad oes gennych ddiddordeb mewn cysylltu â'r prif gyflenwad.

Cyn i unrhyw gysylltiad gael ei wneud, bydd angen i chi wneud yn siwr bod weiriad eich eiddo yn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol. Gall contractiwr trydanol cofrestredig wneud hyn.

Bydd **energywatch**, corff cyhoeddus an-adrannol, hefyd yn falch o fedru eich helpu os ydych yn methu dod i gytundeb gyda WPD. Mae'n bosibl cysylltu â hwy yn **energywatch** – Cymru, 5ed Llawr, Ty Dewi Sant (Adain Orllewinol), Wood Street, Caerdydd CF1 1ES. Ffôn: (0845) 906 0708